# Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg
Ebrill 2019 i Fawrth 2020

## Rhagymadrodd

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yw swyddfa rheoleiddiwr y ddeddfwriaeth ar hawliau gwybodaeth yn y Deyrnas Unedig, ac mae hi o dan nifer o rwymedigaethau cyfreithiol o ran y Gymraeg. Nodir y rhain yn llawn yn hysbysiad cydymffurfio Safonau'r Gymraeg.

Un o'r gofynion hyn yw cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n manylu ar y camau a gymerwyd o ran cydymffurfio â'r safonau uchod. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod o Ebrill 2019 hyd at Fawrth 2020.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, parhaodd yr ICO i weld galw eithriadol ar ei gwasanaethau a'i hadnoddau. Ceir rhagor o wybodaeth am natur y gwaith a wnaethom yn ein hadroddiad blynyddol ein hunain.

## Y cefndir

Mae'r ICO yn rheoleiddiwr i'r Deyrnas Unedig gyfan, gan ymdrin â Chymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Prif swyddogaeth swyddfa ranbarthol yr ICO yng Nghymru yw sicrhau bod materion sy'n benodol i Gymru yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yng ngwaith y sefydliad ehangach. Mae swyddfa Cymru hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau Cymraeg i randdeiliaid Cymraeg eu hiaith yng Nghymru.

## Y camau a gymerwyd

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i randdeiliaid Cymraeg eu hiaith. Er gwaethaf y galw am wasanaethau a grybwyllwyd uchod, rydym yn falch o nodi ein bod wedi parhau i gael llif o adborth cadarnhaol o ran ein darpariaeth Gymraeg. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus yr ICO i ymwneud â'r rhanddeiliaid yn Gymraeg.

Gwelir isod rai o'r camau allweddol a gymerwyd rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020:

- Rhoddwyd detholwr iaith ar waith ar ein gwefan, sy'n caniatáu i ymwelwyr ddewis y Gymraeg fel eu dewis iaith a llywio ein gwefan yn Gymraeg. Lle mae cynnwys Cymraeg ar gael, mae'n cael ei ddangos

yn awtomatig. Cafodd lansiad swyddogol y swyddogaeth hon ei ohirio oherwydd COVID-19.

- Am y tro cyntaf, cafodd rôl ei hysbysebu lle nodwyd sgiliau Cymraeg fel un o ofynion hanfodol y rôl. Buom yn llwyddiannus o ran recriwtio swyddog addas i'r swydd.

- Dechreuwyd paratoi system ffonau gwbl ddwyieithog i ganiatáu i'r sawl sy'n ffonio ddewis ei iaith. Gohiriwyd y gweithredu terfynol gan glefyd COVID-19, ac rydym yn disgwyl i'r system ddod yn fyw yn ystod y flwyddyn 2020-2021.

- Parhaodd ein menter "Dydd Gwener Cymraeg", gan hybu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'r defnydd cynyddol o'r Gymraeg mewn sgyrsiau bob dydd ymysg siaradwyr Cymraeg wedi bod yn amlwg o gofio bod 60% o'r staff yn medru Cymraeg.

## Ymholiadau

Yn ystod y flwyddyn, cafodd yr ICO 179 o ymholiadau yn Gymraeg, sef 7% o'r holl ymholiadau a drafodwyd gan swyddfa'r ICO yng Nghymru. Mae'r ymholiadau hyn yn ymrannu'n 30 drwy'r ebost, dau drwy lythyr a 147 o ymholiadau ffôn.

## Gwaith achosion

Cynhaliwyd 9 achos yn Gymraeg.

## Cwynion

Cawsom ddwy gŵyn ynglŷn â'n darpariaeth gwasanaethau Cymraeg, ac ymdriniwyd â'r rhain yn unol â'n gweithdrefn cwyno am y Gymraeg.

## Codi ymwybyddiaeth

Parhaodd swyddfa Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad mewn cyfarfodydd, gan gynnwys cyfarfodydd ymsefydlu corfforaethol. O ganlyniad i hyn, mae swyddfa Cymru wedi cael cryn gyswllt rhagweithiol gan adrannau eraill o'r ICO ynglŷn â'r Gymraeg, ac mae'n braf nodi hynny.

## Hyfforddiant

Mae'r ICO yn dal i annog ac i baratoi'r staff i allu ymdrin â rhanddeiliaid yn Gymraeg drwy gydol eu taith drwy'r gwasanaeth. Bob blwyddyn, mae pob aelod o'r staff yng Nghymru yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny, a hynny gyda chymorth gan yr ICO.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, rhoddwyd cymorth i ddau aelod o’r staff ynglŷn â’u hanghenion dysgu Cymraeg.

### Asesiad o sgiliau’r staff

O'r pum aelod staff yn swyddfa Cymru, mae gan dri sgiliau Cymraeg llafar rhagorol. Anogir pob un ohonynt i ymateb i ymholiadau ysgrifenedig neu ymholiadau ebost yn Gymraeg lle maent yn teimlo'n ddigon hyderus i wneud hynny heb alw ar gyfieithydd proffesiynol. Y nod yn hyn o beth yw datblygu sgiliau ysgrifenedig mewnol.

### Recriwtio

Yn ystod 2019, llwyddwyd i recriwtio i rôl Swyddog Cymorth gyda sgiliau Gymraeg wedi'u nodi fel un o’r meini prawf hanfodol.

### Cyfieithu

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cafodd £7280.74 ei wario ar gyfieithu dogfennau. Dyna gynnydd o £68.39 ar wariant y flwyddyn cynt.

Cafodd cyfanswm o 68 o ddogfennau eu cyfieithu, rhai yn fewnol, gan gynnwys dogfennau gwaith achosion, hysbysiadau i’r wasg, llythyrau at siaradwyr Cymraeg a thestun ar gyfer tudalennau gwe sy'n dod o fewn cwmpas ein prosiect gwefan Gymraeg.

### Camau sydd ar y gweill

Ar gyfer y cyfnod Ebrill 2020 i Fawrth 2021, bydd yr ICO yn parhau i ddatblygu ei gwasanaethau Cymraeg. Rydym yn bwriadu cynyddu faint o gynnwys Cymraeg sydd ar gael ar ein gwefan, a rhoi opsiwn dewis iaith ar waith i’r rhai sy’n ffonio. Er hynny, mae’r cynnydd yn y meysydd hyn yn debygol o fod yn ddibynnol ar yr adnoddau a fydd ar gael yng ngoleuni'r gwaith sylweddol sy’n cael ei gynhyrchu gan glefyd COVID-19.